# Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth

# Bwrdd Iechyd Addysgu Powys 2022-24

## Crynodeb

Ym mis Mehefin 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, gan nodi amcanion Cymru gyfan i ymgorffori egwyddorion gwrth-hiliol yng ngwasanaethau ac arferion cyflogi'r sector cyhoeddus.

Yn y cynllun, gwneir yn ofynnol i sefydliadau'r sector cyhoeddus fel Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ddatblygu Cynlluniau Gweithredu lleol sy'n dangos sut y byddant yn gweithio i gyflawni'r gwahanol amcanion Cymru gyfan yn lleol dros yr amserlenni a nodwyd yn y cynllun.

## 1. Beth yw gwrth-hiliaeth?

*Mae gwrth-hiliaeth yn ymwneud â newid systemau, polisïau a phrosesau sydd wedi cynnwys agwedd negyddol at bobl ethnig leiafrifol.*

*Dim ond drwy ddull gweithredu gwrth-hiliol y gellir mynd i'r afael â'r rhagfarnau negyddol hyn. Nid 'unioni problem' pobl ethnig leiafrifol, fel unigolion neu grwpiau, yw'r ateb.*

*Yn aml, y systemau ar gyfer camu ymlaen, ac ar gyfer dewis pwy a gaiff ei fentora, ei hyfforddi neu ei noddi, sy'n gwneud cam â phobl. Wrth ddarparu gwasanaethau, y dull gweithredu lliwddall sydd, yn aml, yn gweithio yn erbyn pobl ethnig leiafrifol.*

*Yn aml, tybir mai 'darparu'r un peth i bawb' fydd y gwasanaeth mwyaf priodol. Ond mewn gwirionedd, drwy ystyried gwahaniaethau pobl (e.e. iaith, anghenion deietegol, gwisg, ac ati) y ceir gwasanaeth mwy sensitif, hygyrch ac effeithiol. Yn aml mae'r dull gweithredu lliwddall yn golygu bod pobl ethnig leiafrifol yn ei chael hi'n anodd cael swyddi, camu ymlaen, neu gael gwasanaethau sy'n addas i'w hanghenion.*

*I ni, mae gwrth-hiliaeth yn ymwneud â mynd ati'n rhagweithiol i nodi a dileu polisïau, systemau, strwythurau a phrosesau sy'n arwain at ganlyniadau gwahanol iawn i grwpiau ethnig lleiafrifol. Mae'n golygu bod angen inni gydnabod, hyd yn oed os na chredwn ein bod yn 'hiliol', drwy anwybyddu hiliaeth, y gallwn ganiatáu iddi barhau/*

Llywodraeth Cymru Cyflwyniad i'r Cynllun Cymru Wrth-hiliol

## 2. Beth yw pwrpas y cynllun hwn?

Pwrpas y cynllun hwn yw creu diwylliant sefydliadol lle gall pob aelod o staff fwynhau gweithio'n rhydd o wahaniaethu, ni waeth beth yw eu cefndir ethnig. Mae'r cynllun yn ceisio sicrhau y gall unrhyw un sy'n gweithio i'n sefydliad neu sy'n defnyddio ei wasanaethau fod yn hyderus y cânt eu trin heb unrhyw fath o wahaniaethu sy'n gysylltiedig â'u hil neu gefndir ethnig.


Mae'r amcanion yn y cynllun lleol BIAP hwn yn seiliedig ar yr amcanion a'r 'Camau Blaenoriaeth' a nodwyd yn adran iechyd Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol cyffredinol; mae'r geiriad yn nwy golofn gyntaf y cynllun lleol isod yn adlewyrchu'r geiriad yn nogfen wreiddiol Llywodraeth Cymru, fel y mae'r llinellau amser yn y golofn derfynol. Mae'r holl amcanion a nodwyd yng nghynllun Cymru Gyfan gyda Sefydliadau'r GIG a/neu Fyrddau Iechyd wedi'u rhestri fel rhai cyfrifol wedi'u cynnwys. Yn erbyn pob un o'r camau gweithredu / amcanion blaenoriaeth perthnasol hyn, nodwyd camau gweithredu lleol addas a rhesymol ar gyfer BIAP.

Mae amcanion iechyd ychwanegol yn rhan o'r cynllun cyffredinol nad yw BIAP yn atebol ar eu cyfer, ac nid yw'r rhain yn cael eu hadlewyrchu yn y cynllun lleol BIAP hwn.

## 3. Beth yw'r sefyllfa ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys ar hyn o bryd?

Yn ôl amcangyfrifon poblogaeth Llywodraeth Cymru, o boblogaeth o 129,700 (Mehefin 2022) roedd gan Bowys tua 1,900 o drigolion (1.5%) o ethnigrwydd Du, Asiaidd, Cymysg neu 'Arall' nad ydynt yn wyn, sy'n sylweddol is na chyfartaledd Cymru o 5.1%.

Ar 31ain Mawrth 2023, adroddwyd gan ESR bod cyfanswm o 67 aelod unigol o staff BIAP (2.6% o'r cyfanswm) yn nodi eu bod yn Ddu, Asiaidd, hil gymysg, neu ethnig lleiafrifol nad ydynt yn wyn, neu wedi disgrifio eu grŵp ethnig fel 'Arall'. Disgrifiodd 54 aelod arall o staff eu hunain yn Wyn, ond o ethnigrwydd nad oedd yn y DU neu Iwerddon.




Er bod y rhif hwn yn uwch na'r boblogaeth leol, mae'n llawer is na byrddau iechyd eraill Cymru. Mae'n glir bod BIAP yn cael trafferth denu staff o'r grwpiau hyn, a gallai hyn fod oherwydd natur Powys fel rhanbarth (heb ardaloedd trefol mawr) a darparwr gofal iechyd (gyda chyfran lai o staff meddygol a llai o hanes o recriwtio tramor) yn hytrach na

ffactorau o fewn rheolaeth y bwrdd iechyd. Er na allwn fod yn sicr o hyn ar hyn o bryd, mae'n bwysig nad yw nifer bach yr unigolion yn cael ei ddefnyddio fel rheswm dros ddiffyg gweithredu neu beidio â blaenoriaethu.

Yn wir, mae'n bosibl bod unigolion Du neu Asiaidd mewn gwirionedd yn *fwy* agored i hiliaeth mewn cyd-destunau lle maent yn cynrychioli cyfran lai o'r boblogaeth.

Yn dilyn dull gwrth-hiliol gweithredol, mae'r camau a amlinellir yn y cynllun yn ymrwymo BIAP i nodi unrhyw dystiolaeth o wahaniaethu, gan sicrhau bod BIAP yn gallu mynd ati’n weithredol i wella canlyniadau ar gyfer staff a defnyddwyr gwasanaeth Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol.

## 4. Sut y bydd cyflawni’r cynllun hwn yn cael ei sicrhau, a sut y caiff cynnydd ei gofnodi a’i adrodd?

Mae Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth lleol Powys yn eiddo i'r Tîm Cydraddoldeb o fewn Cyfarwyddiaeth Y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol.

- Mae'r **Tîm Cydraddoldeb** yn gyfrifol yn weithredol am gynhyrchu adnoddau ac ati i hyrwyddo amcanion y polisi hwn. Maen nhw’n gyfrifol am lawer o'r camau gweithredu penodol yn y cynllun, yn ogystal â sicrhau bod adrannau eraill yn atebol am eu camau gweithredu eu hunain. Mae'r tîm yn rhoi cymorth i'r sefydliad ac yn awduron a rheolwyr y polisi hwn ac yn atebol i'r bwrdd iechyd ehangach drwy:
- **Gyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol**, sef arweinydd gweithredol y cynllun hwn.
- Mae'r **Pwyllgor Gweithredol** yn cymeradwyo'r polisi ar ran y bwrdd iechyd ehangach.
- Mae angen i **bob aelod o staff** ddeall goblygiadau'r cynllun a'u cyfrifoldeb personol yn y maes hwn.

Bydd y cynllun yn cael ei gyhoeddi'n fewnol ar dudalennau Cydraddoldeb mewnrwyd y bwrdd iechyd.

Yn unol â'r canllawiau gan Lywodraeth Cymru, bydd cynnydd yn erbyn y cynllun hwn yn cael ei adrodd yn gyhoeddus fel rhan o fframweithiau adrodd presennol y bwrdd iechyd ar gydraddoldeb (Yn benodol, yr Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb, a gyhoeddir bob blwyddyn ariannol).

**Nodyn ar ddyddiadau cau:**

*Nid yw BIAP wedi gallu cwrdd â dyddiadau cau gwreiddiol rhai o'r camau gweithredu fel y nodwyd yng nghynllun Llywodraeth Cymru, a nodwyd hwn isod. Bellach, cwblhawyd rhai o'r camau gweithredu sy'n rhan o'r cynllun, a nodwyd hwn hefyd isod.*

| **Camau Blaenoriaeth o Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol** | | **Camau Gweithredu Bwrdd Iechyd Addysgu Powys i Gefnogi Camau Blaenoriaeth Cenedlaethol** | **Adran(nau) sy'n Gyfrifol** | **Dyddiad** |
|---|---|---|---|---|
| Cam Blaenoriaeth 1 - Arweinyddiaeth | Mynnu arweinyddiaeth wrth-hiliol ar bob lefel drwy gyfarwyddyd. Bydd pob un o Fyrddau, Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Arbennig y GIG yn cyflwyno adroddiadau ar gynnydd y gellir ei ddangos o ran hyrwyddo gwrth-hiliaeth ar bob lefel drwy wneud y canlynol:<br>• Penodi 'Hyrwyddwyr Cydraddoldeb Gweithredol' a 'Llysgenhadon Diwylliannol'; | • Y Bwrdd i benodi Hyrwyddwr Cydraddoldeb Gweithredol, wedi i Lywodraeth Cymru ddarparu proffil y rôl hon i'r Byrddau. | Corfforaethol | Medi 2023 (Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol) |
| | | • Y Bwrdd i benodi Llysgennad (Llysgenhadon) Diwylliannol, yn dilyn proffil y rôl gan Lywodraeth Cymru.<br>[Os nad yw'r proffiliau rôl uchod wedi'u darparu erbyn y dyddiadau targed, bydd BIAP yn datblygu rhai ei hun] | Corfforaethol | Medi 2023 (Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol) |
| | • Rhoi cynllun llwybrau dyrchafiad ac arweinyddiaeth ar waith i staff ethnig lleiafrifol; | • Creu a chyflwyno arolwg penodol o'n staff Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol, gan ofyn am eu profiad o ddatblygu gweithwyr a gyrfa. | Tîm Cydraddoldeb / Y Gweithlu | Gorffennaf 2023 |
| | | • Gan ddefnyddio canlyniadau'r arolwg, hyfforddiant ESR y gweithlu a data recriwtio trac, cynhyrchu adroddiad gweithlu ar ein staff Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig; Bydd yr adroddiad hwn yn llywio camau posibl mewn fersiynau dilynol o'r cynllun hwn. | Tîm Cydraddoldeb / Y Gweithlu | Rhagfyr 2023 |
| | • Darparu lefelau priodol o adnoddau a mynediad at y | • Sicrhau bod pob opsiwn wedi'i ystyried ar gyfer sefydlu grŵp ymgynghori / rhwydwaith staff Du, | Y Tîm Cydraddoldeb | Cyflawn |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Bwrdd i Rwydweithiau Ethnig Lleiafrifol. | Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol o fewn BIAP. Os oes angen, gallai'r grŵp hwn fod ar-lein yn unig, a gweithredu fel 'grŵp ymgynghori' yn hytrach na rhwydwaith, gan ddarparu cyfleoedd i ymgynghori ar e.e. Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb a pholisïau eraill. [Cyflawn – Crëwyd grŵp Yammer Staff Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol BIAP Ionawr 2023] | | |
| | | • Darparu rhaglen barhaus o ddigwyddiadau sy'n rhoi cyfleoedd i staff glywed am brofiad byw unigolion o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. | Y Tîm Cydraddoldeb | Parhaus – Digwyddiadau cyntaf wedi'u trefnu yn Wythnos Cydraddoldeb 15-19 Mai 2023 |
| | | • Gwahodd staff Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig i gynhyrchu straeon staff a chyflwyno o leiaf un i'r Bwrdd yn ystod 2023-24. | Y Tîm Cydraddoldeb / Rhwydwaith Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) | Ebrill 2024 |
| | Defnyddio fframweithiau deddfwriaethol sy'n bodoli eisoes i'w gwneud yn ofynnol i sefydliadau'r GIG ddatblygu cynlluniau gweithredu ar wrth-hiliaeth; ar gyfer cyflogaeth a darpariaeth gwasanaethau fel rhan benodol o'u dull ehangach o ymdrin â chydraddoldeb, cynhwysiant ac amrywiaeth. Byddant yn monitro cynnydd ac yn adrodd arno drwy Gynlluniau Tymor Canolig Integredig a chynlluniau blynyddol a phroses y Tîm Gweithredol ar y Cyd. | • Drafftio Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth (y ddogfen hon) yn barod i ymgynghori ymhlith staff y bwrdd iechyd, ac i'w gymeradwyo gan y bwrdd wedyn. | Y Tîm Cydraddoldeb | Mehefin 2023 [yn wreiddiol Rhagfyr 2022 (ARWAP)] |
| | | • Bydd y cynllun yn cael ei fonitro a'i adrodd i'r bwrdd a Llywodraeth Cymru fel rhan o Adroddiadau Blynyddol Cydraddoldeb 2022-23 a 2022-24, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. | Y Tîm Cydraddoldeb | Yn dechrau yn yr Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb sy'n ddyledus Mehefin 2023 |
| | | • Bydd y cynllun hefyd yn cael ei integreiddio i'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP). [Cwblhawyd ar gyfer IMTP 2023-2026] | Perfformiad / Y Gweithlu | Cyflawn/Ar y gweill |
| | | • Adroddiadau Bwlch Cyflog Ethnigrwydd i'w gynnwys yn Adroddiad Blynyddol 2022-23 a thu hwnt. | Y Tîm Cydraddoldeb | Yn dechrau yn yr Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb sy'n |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | ddyledus Mehefin 2023 |
| | Bydd pob aelod Bwrdd yn y GIG yn ymgymryd â rhaglen addysg ar wrth-hiliaeth ac yn gweithredu ac yn adrodd ar gynnydd yn erbyn amcanion personol (pob aelod Bwrdd) er mwyn cyflawni'r weledigaeth o Gymru wrth-hiliol. | • Sefydlu amcan personol i gefnogi Cymru wrth-hiliol ar gyfer pob aelod o'r Bwrdd. | Corfforaethol | Mai 2023<br>[Yn wreiddiol Mawrth 2023 ARWAP] |
| | | • Cyflwyno rhaglen datblygu'r Bwrdd yn ystod 2023 wedi'i chomisiynu gan Uned Cyrff Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru, pan fydd yn barod. | Corfforaethol | Yn ystod 2023 / Unwaith y comisiynwyd gan Lywodraeth Cymru |
| | | • Bydd aelodau'r Bwrdd yn modelu arferion gwrth-hiliol drwy herio gwahaniaethu, gwrando ar brofiadau byw ac ystyried safbwyntiau hil wrth wneud penderfyniadau. | Corfforaethol | Ar y gweill |
| | | • Aelodau'r Bwrdd i gwblhau hyfforddiant Cydraddoldeb i Reolwyr ac Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb BIAP fel rhan o sesiynau datblygu'r Bwrdd. | Corfforaethol / Y Tîm Cydraddoldeb | Medi 2023 |
| Cam Blaenoriaeth 2 - Y Gweithlu | Comisiynu archwiliad annibynnol o'r holl bolisïau a gweithdrefnau presennol sy'n ymwneud â'r gweithlu o safbwynt gwrth-hiliol, a disgwyl cynrychiolaeth o grwpiau ethnig lleiafrifol mewn fforymau neu grwpiau a sefydlir i lunio'r archwiliad a goruchwylio a chefnogi'r broses o'u rhoi ar waith a'u cymhwyso'n effeithiol. | • Bydd BIAP yn cydweithio â pholisïau Archwilio Cymru, Cymru Gyfan a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, yn ôl y gofyn. Mae BIAP yn cynnal dau grŵp ffocws fel rhan o'r archwiliad ac mae staff wedi cael gwahoddiad i gymryd rhan yn y rhain a'r rhai ar-lein gan y corff a gomisiynwyd (Diverse Cymru). | Y Gweithlu; Corfforaethol | Ar y gweill |
| | | • Unwaith y bydd yr archwiliad wedi'i gwblhau, bydd yr argymhellion yn cael eu rhannu, a bydd BIAP yn ymgorffori'r rhain ym Mholisïau lleol y Gweithlu, rhaglenni hyfforddi (Hyfforddiant Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb) ac mewn mannau eraill yn ôl y gofyn. | Y Gweithlu; Cydraddoldeb | Unwaith mae archwiliad Cymru Gyfan yn cael ei gyhoeddi / cwblhau. Ar y gweill |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Bydd Sefydliadau Addysg Uwch (SAUau) a Sefydliadau'r GIG yn llunio rhaglenni addysg ar wrth-hiliaeth ar y cyd â phobl Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Gosod gofyniad ar bob aelod o staff y GIG a phob un o wirfoddolwyr y GIG a myfyrwyr i gwblhau rhaglenni addysg ar wrth-hiliaeth ar eu ffurf newydd. | • Unwaith y bydd y pecyn hyfforddi (y mae Llywodraeth Cymru yn cyd-ddylunio gydag AaGIC) wedi'i gwblhau, bydd BIAP yn ei gyflwyno i'r holl staff ar draws y sefydliad fel rhan o'i weithdrefnau Hyfforddiant Gorfodol presennol. | Pob tîm; Gweithlu i fonitro Cydymffurfiaeth Hyfforddiant Gorfodol. | Unwaith y bydd pecyn hyfforddiant ar gael |
| | | • Y Tîm Cydraddoldeb i sicrhau bod rhaglenni hyfforddi presennol (Hyfforddiant Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, Cydraddoldeb i Reolwyr) yn ymgorffori egwyddorion gwrth-hiliol. | Y Tîm Cydraddoldeb | Cyflawn (Diweddarwyd sesiynau yn ystod Chwefror 2023) |
| | Bydd pob un o sefydliadau'r GIG yn ymrwymo i fod yn rhan o'r Rhaglen Darpar Aelodau Bwrdd, gan sicrhau addysg, mentora a chymorth i gyfranogwyr a fydd yn dod o gefndir Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Academi Wales i weithio mewn partneriaeth â GIG Cymru a sefydliadau priodol eraill i ddatblygu a rhedeg Rhaglen i Ddarpar Aelodau Bwrdd. | • Bydd BIAP yn ymrwymo i'r rhaglen Ddarpar Aelodau Bwrdd, ac yn darparu ystod lawn o gyfleoedd datblygu corfforaethol presennol i unrhyw gyfranogwyr a neilltuir i BIAP fel rhan o'r rhaglen. | Llywodraethu Corfforaethol | Ar y gweill |
| Cam Blaenoriaeth 3 - Data | Gwella ansawdd data ar y gweithlu a chyflwyno Safon Cydraddoldeb Hil ar gyfer y Gweithlu i ddarparu sylfaen dystiolaeth i sicrhau newid strwythurol wedi'i dargedu a'i fesur. Wedi'i ategu gan newid diwylliannol, drwy ymyriadau wedi'u targedu ar lefel leol a chenedlaethol, a ddatblygir drwy bartneriaeth gymdeithasol. | • Gofyn i'r holl staff ddiweddaru eu gwybodaeth ddemograffig ar ESR, gyda'r nod o gael 90% wedi'i gwblhau (i fyny o 86.6% ym mis Mawrth 2023) erbyn diwedd y flwyddyn. | Y Tîm Cydraddoldeb / Tîm Cyfathrebu / Y Gweithlu | Yn ystod 2023-24, targed erbyn Ebrill 2024. |
| | | • Rheolwr Gwella Gwasanaethau Cydraddoldeb a'r Gymraeg BIAP i gydweithio â chydweithwyr yn y GIG i ddylunio a mabwysiadu Safon Cydraddoldeb Hil ar gyfer y Gweithlu. BIAP i gydweithio yn ôl yr angen i sicrhau y gall ESR gynhyrchu'r adroddiadau perthnasol. | Y Tîm Cydraddoldeb Gwybodaeth am y Gweithlu | Ar y gweill |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Unwaith y cyhoeddir Safon Cydraddoldeb Hil ar gyfer y Gweithlu, sicrheir bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei chasglu a'i hadrodd yn briodol. | Gwybodaeth am y Gweithlu | Medi 2023 (Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol) |
| | | • Ar ôl gweithredu'r Safon Cydraddoldeb Hil ar gyfer y Gweithlu, sicrheir bod BIAP yn ei hymgorffori yn ei weithdrefnau adrodd fel yr Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb. | Y Tîm Cydraddoldeb | Mai 2024 |
| | | • Diweddaru Cynllun Gweithredu BIAP (y ddogfen hon) i ystyried unrhyw faterion a nodwyd yn dilyn dadansoddiad o ddata a ddarperir gan y Safon Cydraddoldeb Hil ar gyfer y Gweithlu. | Y Tîm Cydraddoldeb | Medi 2023 (Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol) |
| | | • Ymgorffori'r Safon Cydraddoldeb Hil ar gyfer y Gweithlu fel y bo'n briodol yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol BIAP 2025-29. | Y Tîm Cydraddoldeb | Yn ystod 2024 |
| Cam Blaenoriaeth 4 - Mynediad at Wasanaethau | Bydd y Rhaglen Cefnogi Diogelwch mewn Gofal Mamolaeth a Newyddenedigol, wedi'i chyd-lunio a'i datblygu â chymunedau ethnig lleiafrifol a rhanddeiliaid, yn manylu ar newidiadau penodol i wasanaethau mamolaeth a fydd yn gwella canlyniadau a phrofiadau menywod a theuluoedd o gymunedau ethnig lleiafrifol sy'n wynebu anghydraddoldebau iechyd, ac yn eu rhoi ar waith. | • Yn dilyn cyhoeddiad y rhaglen, gweithredir unrhyw argymhellion neu gamau gweithredu a nodwyd sy'n berthnasol i wasanaethau Mamolaeth ym Mhowys. | Menywod a Phlant | Parhaus, yn amodol ar gyhoeddi rhaglen ac unrhyw argymhellion cysylltiedig. Ionawr 2023 (Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol) |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cam Blaenoriaeth 4 - Ymdrin ag Anghydraddoldebau Iechyd | Sicrhau bod ein cynlluniau adfer ar ôl COVID-19 yn gwbl gynhwysol ac wedi'u targedu at anghydraddoldebau iechyd hysbys o ran mynediad at ofal a darpariaeth gwasanaethau. | • Rheolwyr y Prosiectau sy'n rhan o gynlluniau Adfer o Covid-19 i ymgymryd â hyfforddiant ar Gynnydd Asesu Effaith Cydraddoldeb BIAP, a ddarperir gan Dîm Cydraddoldeb BIAP. | Rheolwyr Prosiect sy'n ymwneud ag adfer o Covid / Tîm Cydraddoldeb | Erbyn Medi 2023 (Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol) |
| | | • Cymhwyso Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i gynlluniau adfer o COVID-19 a chysylltu ag anghydraddoldebau iechyd hysbys | Rheolwyr Adfer o Covid | Erbyn Medi 2023 (Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol) |
| | Bydd "Amser i Newid Cymru" yn datblygu ac yn cyflwyno rhaglen atal stigma iechyd meddwl wrth-hiliol sydd wedi'i chyd-lunio â phobl â phrofiadau bywyd a phobl o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. | • Yn dilyn cyhoeddiad y rhaglen, gweithredu unrhyw argymhellion neu gamau gweithredu a nodwyd sy'n berthnasol i wasanaethau Iechyd Meddwl ym Mhowys. | Iechyd Meddwl | Parhaus, yn amodol ar gyhoeddi rhaglen ac unrhyw argymhellion cysylltiedig. Mawrth 2023 (Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol) |